



Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth: Adroddiad Terfynol

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliwyd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2017 a chafodd ei chyllido a'i gweithredu gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y rhaglen oedd gweithredu set o argymhellion a amlinellir yn 'Ar ôl Pwysu a Mesur', adroddiad annibynnol a oedd yn galw am weithredu i fynd i'r afael â diffyg amrywiaeth yn llywodraeth leol Cymru (Grŵp Arbenigol mewn Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Nod y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd cynyddu'r nifer o ymgeiswyr llywodraeth leol o gefndiroedd amrywiol, trwy nifer o feysydd gweithredu:

- Cynllun Mentora
- Ymgyrch Gyfathrebu
- Cynllun Annog Cyflogwyr
- Drws i Democratiaeth
- Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol

1.2 Mae'r gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn seiliedig ar ddull Theori Newid ac mae'n cynhyrchu cyfres o gasgliadau ac argymhellion i Lywodraeth Cymru (a sefydliadau perthnasol eraill) i'w gweithredu wrth geisio mynd i'r afael â chynrychiolaeth anghyfartal ymysg swyddogion etholedig mewn llywodraeth leol. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn manylu ar y canfyddiadau o lwyddiannau a gyflawnwyd gan y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth o adolygiad desg o ddogfennaeth rhaglenni, a chyfres o ymarferion gwaith maes.

2. Gweithredu a llwyddiannau

2.1 Llwyddodd y **Cynllun Mentora** i recriwtio mentoriaid a disgyblion o amrywiaeth o ymlyniadau gwleidyddol, ac o amrywiol gefndiroedd ac awdurdodau lleol. Ochr yn ochr â mentora, roedd y gweithgaredd hwn yn rhoi hyfforddiant i gyfranogwyr ddatblygu eu sgiliau a hyder mewn llywodraeth leol (megis wrth gyflwyno cyflwyniadau). Rhwng y cwbl, fe wnaeth 20 allan o 22 o awdurdodau lleol gymryd rhan, ac fe wnaeth y cynllun recriwtio 64 o fentoriaid a 51 o fentoreion (sef 'disgyblion' y mentoriaid). Ar ddiwedd y rhaglen, 20 o'r mentoreion hyn yn fodlon sefyll i gael eu hethol. Roedd yr effeithiau hirdymor eraill yn cynnwys mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o lywodraeth leol, a dywedodd rhai mentoreion eu bod wedi defnyddio'r sgiliau a enillwyd i ddod yn fwy gweithgar mewn

meysydd eraill o fywyd cyhoeddus (megis dod yn llywodraethwr ysgol). I fentoriaid, dywedodd rhai eu bod bellach yn fwy ymwybodol o rwystrau sy'n wynebu pobl o gefndiroedd amrywiol rhag cymryd rhan mewn llywodraeth leol, a dywedodd llawer y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cynlluniau mentora yn y dyfodol.

- 2.2 Roedd dau nod i'r **Ymgyrch Gyfathrebu**: hyrwyddo'r cyfle i ddarpar fentoreion gymryd rhan yn yrhaglen, a chodi ymwybyddiaeth a diddordeb cymunedol mewn llywodraeth leol. Yn gyffredinol, llwyddodd y gweithgaredd hwn i gyflawni ei amcanion o ddatblygu deunyddiau i'w dosbarthu mewn digwyddiadau (taflenni), defnyddio cyfryngau (cylchgronau a radio), adeiladu presenoldeb ar y we (cyfryngau cymdeithasol, a gwefan), a mynd i ddigwyddiadau. Cyflawnwyd gweithgareddau hyrwyddo hefyd trwy gydweithio â rhwydweithiau a grwpiau cydraddoldeb fel Chwarae Teg ac Un Llais Cymru, er i'r cysylltiadau hyn edwino yn ystod y cyfnod roedd y rhaglen ar waith. Cafodd y gyllideb ei dyrannu ar y sail ei bod yn arwain y ffordd at ymgyrch hirach yn sgil amserau yn y cylch etholiadol. Cyflawnodd yr Ymgyrch Gyfathrebu gynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r cynllun – fodd bynnag nid oedd ganddi'r graddau digonol o adnoddau i allu newid yn effeithiol y canfyddiadau o lywodraeth leol ledled Cymru.
- 2.3 Er mwyn datblygu ymhellach ddealltwriaeth o amrywiaeth mewn llywodraeth leol, un o amcanion cychwynnol y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd hyrwyddo'r Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, i gynyddu ymatebion a chynyddu'r wybodaeth roedd yn ei darparu. Cyflawnwyd y gwaith hwn fodd bynnag gan y tîm polisi yn Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'n uniongyrchol gan y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Yn gyffredinol, cwmpodd nifer yr ymatebion – o 3,394 yn 2012, i 1,701 yn 2017.
- 2.4 Er mwyn hyrwyddo ymhellach y maes mentora ac annog cyfranogiad mewn llywodraeth leol, fe wnaeth y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth weithredu **Cynllun Annog Cyflogwyr**. Cafodd hyn rywfaint o lwyddiannau cyfyngedig, gyda rhai dulliau cyfathrebu'n cael eu cynnig i gyflogwyr, a digwyddiadau'n cael eu cyflwyno (fel digwyddiad 'Hawl i Holi' gyda Gwasanaeth Ambiwylans Cymru). Ni chafodd y maes hwn o'r rhaglen ei gyflawni'n llawn. Roedd canfyddiadau o'r gwaith maes, fodd bynnag, yn dangos bod angen cyd-drafod gyda chyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau mae rhai cynghorwyr yn eu hwynebu wrth fynd i'r gwaith yn ystod tymor etholedig neu wedi hynny.
- 2.5 Bwriad maes gweithredu **Drws i Ddemocratiaeth** oedd rhoi cymorth ariannol i ymgeiswyr posibl a oedd yn anabl. Er gwaethaf cymryd nifer o gamau (modelu a chwmpasu costau), ni chyflawnwyd y maes hwn oherwydd rheoliadau a oedd yn rhwystro Llywodraeth Cymru rhag ariannu ymgeiswyr yn uniongyrchol, a'r hyn a ystyrid fel cost ariannol ormodol i allu trosglwyddo'r gweithgaredd hwn i gorff allanol, annibynnol. Er hyn, darparwyd rywfaint o gyllid uniongyrchol i gyfranogwyr y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i'w galluogi hwy i gymryd rhan (megis fel dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain).
- 2.6 Nod y rhaglen wrth gyd-drafod â **phleidiau gwleidyddol** oedd edrych ar ffyrdd y gallai gweithdrefnau dewis ymgeiswyr llywodraeth leol fod yn fwy cynhwysol. Cafodd y maes gweithgaredd hwn rywfaint o lwyddiannau tuag at amcanion y rhaglen trwy negeseuon rheolaidd i ddiweddarau pleidiau gwleidyddol trwy e-bost, a pharodrwyd rhai arweinwyr pleidiau i gyfrannu.

3. Argymhellion

- 3.1 Ymhlith yr argymhellion o'r gwerthusiad oedd bod unrhyw raglen a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr / cynghorwyr mewn llywodraeth leol, yn cynnwys **cyfnod datblygu**, i amserlennu gweithgareddau allweddol, cynllunio adnoddau i aelodau timau, a chadarnhau prosesau monitro a gwerthuso. Dylai rhaglen fentora **gydnabod terfynau** o ran pa rwystrau y gall fynd i'r afael â hwy a chynllunio ei hamcanion / canlyniadau yn unol â hynny. Mae rhwystrau sefydliadol a strwythurol – megis lefelau tâl ac amser – yn dal i fod yn broblem sy'n effeithio ar lwyddiant mentora wrth gynyddu'r nifer o ymgeiswyr amrywiol.

- 3.2 Mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol, argymhellir bod y cyfnod datblygu yn diffinio'n glir **gyfranogwyr targed** y rhaglen ac yn teilwra cymorth yn unol â'u hanghenion. Er enghraifft, gallai ystyried y graddau'r oeddent yn weithgar mewn bywyd cyhoeddus cyn hynny, a pha ganlyniadau sy'n realistig.
- 3.3 Mae angen yn parhau i ymdrin â **chanfyddiadau'r cyhoedd** o lywodraeth leol, gan fod camargraffiadau ynghylch rôl cynghorwyr ac agweddau negyddol tuag at aelodau etholedig yn dal i fod yn rhwystr rhag cymryd rhan. Dylid lansio ymgyrch gyhoedduswydd a chyfathrebu i fynd i'r afael â hyn. Mae materion penodol y tynnwyd sylw atynt o fewn y gwaith maes yn cynnwys camsyniadau ynghylch y lefelau tâl, pa wasanaethau mae cynghorau'n gyfrifol amdanynt, a'r nifer o oriau mae cynghorwyr yn eu treulio ar eu dyletswyddau.
- 3.4 Dylai cynllun yn y dyfodol **weithio gyda chyflogwyr a chynghorwyr**, er mwyn ymdrin â chanfyddiadau ynghylch y sgiliau a enillir yn sgil rôl cynghorydd. Dylai gydnabod gwahanol anghenion cyflogwyr (fel anghenion sgiliau) a chyd-drafod ar sail hyn.
- 3.5 Mae **angen sylweddol** am raglen sy'n seiliedig ar y cynllun Mynediad i Swydd Etholedig / **Drws i Ddemocratiaeth** yng Nghymru, yn sgil yr amrywiol rwystrau a wynebwr gan bobl anabl wrth sefyll etholiad, yn ogystal ag yn ystod eu tymor fel cynghorydd. Mae hwn yn rhwystr pendant i gymryd rhan mewn llywodraeth leol y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef a dylid ei archwilio ymhellach.
- 3.6 Dylai cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol sicrhau bod cefnogaeth ar draws y pleidiau gwleidyddol, a pharchu y gall **gwahanol weithdrefnau dewis** (megis y defnydd o restrau byr o ferched yn unig, merched a dynion bob yn ail, neu ymyraethau seiliedig ar gwtâu) adlewyrchu ideoleg wleidyddol. Er hynny, mae lle i ymdrin â rhagfarn ddarwybod – yn bennaf ar baneli dewis.

Awduron yr Adroddiad: Miller Research

Adroddiad ymchwil llawn - McConnel, J. ac Stevenson, S. (2019). *Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 27/2019.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-amrywiaeth-mewn-democratiaeth-0>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Merisha Hunt
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Merisha.Hunt003@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83876-489-0